

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1663
Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

Canllawiau i Hebryngwyr Newydd

Rôl Hebryngwr

Dyletswydd cyntaf Hebryngwr yw'r plentyn yn eu gofal. Mae'n gyfrifol am ddiogelu, cefnogi a hyrwyddo lles y plentyn, ac ni ddylai ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a fyddai'n ymyrryd ar ei (g)allu i oruchwylio'r plentyn yn briodol.

Rhaid i hebryngwyr aros gyda'r plentyn bob amser a chadw eu golwg ar y plentyn pan fyddant ar lwyfan, set neu leoliad. Bydd yr union ddyletswyddau tra bo'r plentyn yn y man perfformio neu weithgaredd yn amrywio'n dibynnu ar y math o berfformiad neu weithgaredd ydyw. Fodd bynnag, eu prif ddyletswyddau yw sicrhau bod y plentyn/plant yn cael eu goruchwylio'n briodol pan nad ydynt yn perfformio a'u bod yn cael digon o brydau bwyd, gorffwys a difyrwch. Mae'n rhaid i hebryngwyr hefyd sicrhau bod y cyfleusterau, gan cynnwys ystafelloedd gwisgo, toiledau, ystafell werdd ac ati, yn briodol.

Cyn y diwrnod perfformio

Os ydych yn cael eich cyflogi trwy asiant mae'n bosibl y byddant yn eich hysbysu o'r wybodaeth isod, ond os ydych yn cael eich cyflogi'n uniongyrchol gan drefnydd y perfformiad neu weithgaredd bydd angen i chi gysylltu â nhw.

- Gwiriwch i bwy yr ydych yn atebol
- Gwiriwch gyfeiriad y lleoliad perfformio a sicrhewch eich bod yn gwybod ble mae o.
- Gwiriwch am faint o'r gloch y dylech gyrraedd a sicrhewch eich bod yn gadael digon o amser i gyrraedd yno
- Lle bo hynny'n bosibl, gofynnwch am fanylion y plant y byddwch yn eu Hebrwng gan gynnwys:
 - Oedran
 - Rhyw
 - Nifer y Plant
 - A oes Hebryngwyr eraill
 - Amseroedd y bydd y plant yn cyrraedd ac yn ymadael

Os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu Hebrwng plant yn ddiogel, codwch y mater gyda'ch asiant neu drefnydd y digwyddiad. Gall Hebryngwr oruchwylio hyd at 12 o blant. Fodd bynnag, oherwydd gofynion y perfformiad, oedran, rhyw neu anghenion arbennig y plant, mae'n bosibl y bydd grwpiau bach neu hyd yn oed oruchwyliaeth unigol yn ofynnol.

Pethau i fynd gyda chi

- Eich trwydded Hebryngwr
- Rhifau cyswllt ffôn tŷ / ffôn symudol
- Llyfr nodiadau neu daflenni cofnodi dyddiol
- Copi o'ch dogfen Canllawiau i Hebryngwyr sy'n cynnwys tabl perfformiad a rhestr wirio'r lleoliad ar gyfer y plant.
- Pecyn gofal: Weips, byrbrydau, dŵr, gweithgareddau (mae'n help gwybod beth yw oedrannau'r plant) megis creonau (efallai na fydd pinau ffelt yn briodol er mwyn osgoi gadael marciau ar groen neu wisgoedd y plant) papur, cardiau, gemau, posau ac ati.

- Manylion cyswllt y Swyddog sy'n gyfrifol am Gyflogaeth Plant yn yr Awdurdod Lleol
- Arian ar gyfer argyfyngau

Beth i'w wisgo

- Dillad priodol sy'n addas ar gyfer gweithio gyda phlant
- Esgidiau fflat – dim sodlau sy'n 'clicio'
- Dim byd sy'n hongian a allai gael eu dal yn rhywbeth
- Dillad tywyll / du ar gyfer cynyrchiadau llwyfan
- Dillad priodol ar gyfer y lleoliad a'r tywydd: Esgidiau, côt law, ymbarél, eli haul yn eich car.

Ar ôl i chi gyrraedd (cyn i'r plentyn gyrraedd):

- Mewn Theatrau ewch yn syth i ddrws y llwyfan.
- Ar gyfer lleoliadau dilynwch yr arwyddion 'Loc' neu 'unit base'
- Cofrestrwch gyda'r swyddogion diogelwch
- Ewch at y person y dylech roi gwybod iddo/iddi eich bod wedi cyrraedd – fel arfer y person hwnnw yw:
 - Perfformiadau Theatr – Rheolwr Cwmni, Rheolwr Llwyfan neu Brif Hebryngwr
 - Lleoliad / Stiwdio Deledu neu Ffilm – Gofynnwch am swyddfa'r cynhyrchiad, Ail Gyfarwyddwr Cynorthwyol (2nd AD) sydd fel arfer yn delio â'r plant.

Gwybodaeth a dogfennau y bydd angen i chi ofyn am eu gweld

- Copi o drwyddedau'r Plentyn neu unrhyw dystiolaeth o esemptiad os cewch eich hysbysu nad oes angen trwyddedau (os yw'r plentyn yn colli ysgol neu'n cael ei dalu, bydd angen trwydded)
 - Gwiriwch y trwyddedau am y wybodaeth ganlynol:
 - Amseroedd dechrau a gorffen
 - Trefniadau teithio
 - Trefniadau addysg
 - Unrhyw amodau ychwanegol a osodwyd ar y drwydded gan yr Awdurdod Lleol
- Rhestr o enwau'r Plant y byddwch yn gofalu amdanynt
- Rhestr o rifau cyswllt cartref a brys y plant y gallwch gael mynediad atynt bob amser.
- Gwiriwch a oes gan unrhyw blentyn gyflyrau neu ofynion meddygol, os oes angen meddyginiaeth ar y plentyn, pa drefniadau sydd mewn lle i'w rhoi i'r plentyn:
 - Amseroedd rhoi meddyginiaeth
 - Pwy fydd yn rhoi'r feddyginiaeth, y swyddog cymorth cyntaf i blant neu chi?
 - Faint o feddyginiaeth i'w roi
 - Storio'r feddyginiaeth yn ddiogel
- Unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylech ei chael am y plant h.y. Anghenion Arbennig, anghenion deietegol, alergeddau, ofnau neu bryderon ac ati
- Gwiriwch Bolisi Amddiffyn Plant y sefydliad
- Gofynnwch am gopi o amserlen ddyddiol / taflen alw ar gyfer y diwrnod
 - **Beth y gofynnir i'r plentyn ei wneud? - Os nad yw hynny'n eglur, gofynnwch i'r tîm cynhyrchu esbonio beth sy'n ofynnol, pryd a ble y byddant yn gwneud beth bynnag y maent yn ei wneud.**

- Os yw'r perfformiad yn cynnwys themâu oedolion, efallai y bydd gofyn i chi gael copi o'r sgript i sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud yn ystod golygfeydd pan na ddylai plant fod yn bresennol.

Gwirio'r Lleoliad

- Dewch yn gyfarwydd â gosodiad y lleoliad
- Gwiriwch bob ardal y bydd y plant yn cael mynediad atynt a chwiliwch am unrhyw beryglon neu broblemau ychwanegol:
 - Ystafelloedd gwisgo
 - Mae'n rhaid i fechgyn a merched dros 5 oed gael ystafelloedd gwisgo ar wahân.
 - Ydyn nhw'n ddigon mawr? Rhy boeth / oer?
 - Ydyn nhw'n breifat?
 - A oes oedolion eraill yn cerdded i mewn/trwy'r ystafelloedd gwisgo?
 - Pwy arall sydd i mewn yn yr ystafell?
 - Ystafell ysgol os yw'r plant yn cael eu tiwtora
 - Llwyfan/set neu'r lleoliad y bydd y plant yn perfformio neu'n aros
 - Unrhyw ardaloedd eraill y bydd y plant yn cael mynediad atynt – ydyn nhw'n ddiogel?
 - Unrhyw ardal newid 'sydyn':
 - Newid ar ochr llwyfan
 - A oes modd i eraill weld y plentyn?
 - Ydyn nhw'n dadwisgo i'w dillad isaf?
 - Ardal orffwyso yn yr Ystafell Werdd
 - Rhannu gydag oedolion? Hebryngwyr i fod gyda'r plentyn
 - Lle cyfforddus, ar gyfer pawb?
 - Prydau bwyd / lluniaeth
 - A oes egwyliau addas? Trefniadau ar gyfer prydau bwyd trwy gydol y dydd, a ddarperir ar gyfer gofynion dietegol, a oes digon o ddiodydd ar gael?
 - Cyfleusterau toiledau
 - Ar wahân i oedolion – dynodedig ar gyfer plant. Beth am giwbiclau unigol? Beth os nad oes toiledau ar wahân? Yng nghwmni hebryngwr, gweithdrefnau ar gyfer gwirio eu bod yn lân?
 - Cymorth Cyntaf / Meddygol
 - Pecynnau Cymorth Cyntaf – staff hyfforddedig ar ddyletswydd?
 - Setiau ffilm – meddygon / nyrsys / parafeddygon ar y safle?
- Gwiriwch lleoliad yr holl allanfeydd tân
- Os yw'n bosibl, gofynnwch am gael clywed y larwm dân
- Os yw'n bosibl, trefnwch ymarfer tân gyda'r plant
- Gwiriwch pwy yw'r person dynodedig os oes gennych unrhyw bryderon Amddiffyn / Diogelu Plant.
- Gwiriwch y gweithdrefnau gwagio / pwyntiau cyfarfod
- Siaradwch gydag unrhyw Hebryngwyr eraill sydd wedi cael eu cyflogi a gweithiwch fel tîm.
 - Os oes rhieni'n bresennol fel hebryngydd i'w plentyn eu hunain, ni ddylent gael eu gadael ar eu pennau eu hunain gyda phlentyn arall.

Cyfarfod â'r Plant

- Cyflwynwch eich hun i'r plant a'u rhieni os ydynt yn bresennol, esboniwch beth yw'ch rôl ac mai chi yw'r person y gallant siarad ag ef/hi os oes ganddyn nhw unrhyw broblemau neu bryderon.
- Cyfarfod briffio gyda'r plant (addas i'r oedran) esboniwch yr amserlen ddyddiol:
 - Pryd y byddant yn perfformio / ymarfer
 - Manylion gwisgoedd a cholur
 - Egwylliau ac amser prydau bwyd
 - Amser tiwtora
- Gofalwch bod y plant yn dod yn gyfarwydd â gosodiad y lleoliad
- Esboniwch beth fydd yn digwydd os bydd y gloch tân yn canu
- Cyflwynwch y plant i'r cast a'r criw os yw hynny'n bosibl ac esboniwch beth yw eu gwaith yn y cynhyrchiad.
- Esboniwch y 'rheolau tŷ' i'r plant, eich disgwyliadau o'u hymddygiad a'u ffiniau, dim chwarae'n wyrion oherwydd y peryglon.

Cofiwch: Nid yw plant fel arfer yn cael taliad bach neu unrhyw daliad o gwbl am y gwaith y maent yn ei wneud. Mae'n bwysig eu bod yn mwynhau'r profiad ac yn elwa o gymryd rhan yn y perfformiad. Dylent orffen eu diwrnod yn teimlo eu bod wedi gwneud gwaith da a theimlo eu bod yn rhan o'r tîm cynhyrchu.

Amser perfformio / gweithio

- Diffoddwch eich ffôn symudol. Efallai na fydd tawelu'r ffôn yn unig yn ddigon mewn rhai theatrau / stiwdios
- Gofalwch eich bod yn gallu gweld y plentyn / plant bob amser.
 - Mae'r amser y mae plentyn yn ei dreulio mewn ystafell wisgo neu golur cyn mynd ar y set / llwyfan yn cyfrif fel gwaith
 - Unwaith y bydd plentyn yn cyrraedd lleoliad y perfformiad, mae'r cloc yn cychwyn tician
 - Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r rhiant yn cyrraedd gyda'r plentyn cyn yr amser galw.

Taflenni Cofnodi Dyddiol

- Naill ai ar y daflen gofnodion yr ydych wedi'i derbyn neu lyfr nodiadau, cofnodwch beth mae'r plentyn yn ei wneud trwy gydol y dydd, cyfeiriwch at eich tabl perfformiad i sicrhau bod y pethau canlynol yn cadw o fewn y Rheoliadau:
 - Amser cyrraedd
 - Colur / Gwisgo
 - Amseroedd perfformio
 - Egwylliau
 - Prydau bwyd
 - Tiwtora
 - Amser gadael

Disgresiwn Hebryngwyr

- **Disgresiwn 1 awr**

Gallwch benderfynu a ddylai'r plentyn weithio ar ôl yr amser gorffen hwyraf mewn rhai amgylchiadau eithriadol. Gallwch gytuno ar estyniad o ddim mwy nag awr, cyn belled a'ch bod yn fodlon na fydd lles y plentyn yn cael ei effeithio **ac** nad yw cyfanswm amser gweithio'r

plentyn (gan gynnwys yr amser ychwanegol a gytunir) yn uwch na'r uchafswm a ganiateir. (Gweler tabl 1) Mae'n rhaid i'r hebryngwr roi gwybod am hyn i'r Awdurdod Lleol a roddodd drwydded i'r plentyn a'r Awdurdod Lleol lle cynhelir y perfformiad a'r rhesymau dros gytuno ar hyn.

Gellir defnyddio disgresiwn yn achlysurol yn unig, pan fydd amgylchiadau anarferol neu annisgwyl yn oedi cynhyrchiad. Dylai hebryngwyr ystyried cais am estyniad mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig. Ni ddylid defnyddio disgresiwn yn rheolaidd nac i wneud iawn am amserlenni diffygiol gan drefnwyr y digwyddiad.

- **Disgresiwn Egwyl Pryd Bwyd**

Gallwch hefyd gytuno i leihau **un** egwyl pryd bwyd i ddim llai na **30 munud** os yw'r perfformiad neu'r ymarfer yn **yr awyr agored** cyn belled a bod: yr egwyl yn para dim llai na hanner awr; ac na eir y tu hwnt i uchafswm yr oriau y gall plentyn gymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer (gweler tabl 1). Eto, disgwylir i hyn beidio â digwydd yn rheolaidd.

COFIWCH:

Os nad ydych yn fodlon â'r hyn y gofynnir i'r plentyn ei wneud neu os oes gennych bryderon am les y plentyn mae'n RHAID i chi fynnu NAD yw'r plentyn yn parhau nes bo trefniadau priodol yn cael eu gwneud a'ch bod yn fodlon i'r plentyn barhau.

Os yw'r plentyn yn teimlo'n sâl mae'n rhaid i chi atal y plentyn rhag perfformio nes ei fod/bod yn ddigon da i barhau.

TABL 1

**PLANT MEWN ADLONIAINT
CYFYNGIADAU MEWN PERTHYNAS Â PHOB PERFFORMIAD**

Testun	0 i 4 oed	5 i 8 oed	9 oed a hŷn
Uchafswm yr oriau mewn lle perfformio neu ymarfer (Rheoliad 24)	5 awr	8 awr	9.5 awr
Yr amseroedd cynharaf a hwyraf y caniateir mynediad i'r lleoliad perfformio neu ymarfer (Rheoliad 23)	Rhwng 7am a 10pm	Rhwng 7am a 11pm	Rhwng 7am a 11pm
Y cyfnod mwyaf o berfformio neu ymarfer di-dor (Rheoliad 24)	30 munud	2.5 awr	2.5 awr
Uchafswm yr oriau a dreulir yn perfformio neu'n ymarfer (Rheoliad 24)	2 awr	3 awr	5 awr
Egwyl lleiaf ar gyfer prydau bwyd a gorffwys (Rheoliad 25)	Rhaid i unrhyw egwyliau bara o leiaf 15 munud. Os ydynt yn y lleoliad perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr, rhaid i egwyliau gynnwys o leiaf un egwyl pryd bwyd sy'n para 45 munud.	Os ydynt yn y lleoliad perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr ond llai na 8 awr, mae'n rhaid iddynt gael un egwyl pryd bwyd sy'n para 45 munud ac o leiaf un egwyl 15 munud. Os ydynt yn y lleoliad perfformio neu ymarfer am 8 awr neu fwy, mae'n rhaid iddynt gael yr egwyliau a nodir uchod yn ogystal ag egwyl arall am 15 munud.	Os ydynt yn y lleoliad perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr ond llai na 8 awr, mae'n rhaid iddynt gael un egwyl pryd bwyd sy'n para 45 munud ac o leiaf un egwyl 15 munud. Os ydynt yn y lleoliad perfformio neu ymarfer am 8 awr neu fwy, mae'n rhaid iddynt gael yr egwyliau a nodir uchod yn ogystal ag egwyl arall am 15 munud.
Addysg (Rheoliad 15)	Amh.	3 awr y dydd (uchafswm o 5 awr y dydd). 15 awr yr wythnos, dysgu ar ddyddiau ysgol yn unig. O leiaf 6 awr yr wythnos os ydynt yn	3 awr y dydd (uchafswm o 5 awr y dydd). 15 awr yr wythnos, dysgu ar ddyddiau ysgol yn unig. O leiaf 6 awr yr wythnos os ydynt yn cronni dros gyfnod o 4 wythnos neu lai.

		cronni dros gyfnod o 4 wythnos neu lai.	
Egwyl lleiaf rhwng perfformiadau Rheoliad 25)	1 awr 30 munud	1 awr 30 munud	1 awr 30 munud
Y nifer fwyaf o ddyddiau olynol y gellir cymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer (Rheoliad 28)	6 diwrnod	6 diwrnod	6 diwrnod

CYRRAEDD Y LLEOLIAD

<ul style="list-style-type: none">• Cyrhaeddwch cyn y plant, yn enwedig os nad ydych yn gyfarwydd â'r lleoliad. Bydd hyn yn rhoi amser i chi edrych o gwmpas a chwrrd â phobl eraill sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad.• Ewch i roi gwybod i Ddeiliad y Drwydded neu eu dirprwy eich bod wedi cyrraedd ac unrhyw berson perthnasol arall (h.y. rheolwr llwyfan / llawr, gwisgwyr ac ati)• Gwiriwch bob ardal y bydd y plant yn mynd iddyn nhw am beryglon.• Gwiriwch allanfeydd tân i weld pa mor hawdd y gellir eu defnyddio.• Gofynnwch am gael clywed y larwm dân a threfnwch bod y plant yn cymryd rhan mewn ymarfer tân.• Gwiriwch y cyfleusterau cymorth cyntaf a gofynnwch a oes swyddog Cymorth Cyntaf ar y safle.• Gwiriwch a yw'r ystafelloedd gwisgo, toiledau, ystafell ysgol, ystafell orffwys a threfniadau prydau bwyd ac unrhyw gyfleusterau eraill yn addas.• Wrth wirio ystafelloedd gwisgo, cofiwch bod yn rhaid i blant 5 oed neu'n hŷn wisgo gyda phlant eraill o'r un rhyw yn unig.• Siaradwch gydag unrhyw Hebryngwyr eraill sydd wedi cael eu cyflogi a gweithiwch fel tîm.• Gofynnwch am restr o enwau'r plant y byddwch yn gofalu amdanynt.• Os oes mwy na 12 o blant, mae'n rhaid i bob Hebryngwr fod yn siŵr pwy sy'n gofalu am bob plentyn.	<ul style="list-style-type: none">• Gwiriwch drwydded perfformiad pob plentyn a nodwch unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â hi. Mae'n rhaid i gopi Deiliad y Drwydded fod ar gael yn y lleoliad y cynhelir y digwyddiad.• Gofalwch bod rhestr o fanylion cyswllt cartref a brys y plant ar gael i chi bob amser rhag ofn y bydd angen i chi gysylltu â'r rhiant/gwarcheidwad.• Gofynnwch i Ddeiliad y Drwydded a oes gan unrhyw blentyn broblemau neu ofynion meddygol.• Mae'r wybodaeth hon yn gwbl gyfrinachol ond, fel Hebryngwr, mae angen i chi wybod. Os yw plentyn yn mynd yn sâl efallai y bydd rhywbeth yn y nodiadau a fydd yn rhoi syniad i chi o'r broblem. Os yw'r plentyn yn gorfod mynd i ysbyty neu'n cael ei weld gan feddyg, gallai'r ffaith bod y plentyn yn cymryd meddyginiaeth effeithio ar y driniaeth. Efallai y bydd angen i chi atgoffa plentyn i gymryd meddyginiaeth ar amser penodol.• Os ydych yn anfodlon ag unrhyw gyfleusterau neu drefniadau, dylech adrodd eich pryderon wrth Ddeiliad y Drwydded a chytuno ar well amodau. Os na fyddwch yn llwyddo i gytuno ar well amodau, mae'n rhaid i chi ystyried a ydych am barhau i ganiatáu i'r plentyn gymryd rhan yn y digwyddiad. Mewn amgylchiadau fel hyn dylech hysbysu'r Awdurdod Lleol priodol cyn gynted ag sy'n bosibl o fanylion y broblem/problemau a'r camau a gymeroch.• Gwiriwch bolisi amddiffyn plant y cwmni.
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

RHESTR WIRIO – CYRRAEDD Y LLEOLIAD

Efallai y byddai llungopi o'r dudalen hon yn ddefnyddiol i chi yn eich gwaith.

	Ticiwch
Dod yn gyfarwydd â gosodiad y lleoliad	
Nodi pob perygl	
Canfod pob allanfa dân	
Gofyn am gael clywed y larwm dân	
Trefnu ymarfer tân (gyda'r larwm) ar gyfer y plant	
Canfod y cyfleusterau cymorth cyntaf	
Gwirio pwy yw person cyswllt y cynhyrchiad os oes gennych bryderon/problemau	
Archwilio ystafelloedd gwisgo (rhywiau ar wahân i blant 5 oed a hŷn)	
Canfod y toiledau a'u harchwilio	
Canfod yr ystafelloedd gorffwys a'u harchwilio	
Canfod yr ystafell ysgol (os yw'n berthnasol) a'i harchwilio	
Gwirio beth yw'r trefniadau prydau bwyd	
Gwirio cyfanswm nifer y plant	
Gwirio cyfanswm nifer yr hebryngwyr	
Gofyn am restr o enwau'r plant	
Gwirio trwydded berfformio pob plentyn	
Sicrhau bod gennych rifau ffôn cartref pob plentyn ar gyfer argyfwng	
Lle bo hynny'n berthnasol, sicrhau bod gennych fanylion problemau meddygol a/neu feddyginiaeth pob plentyn.	
Sicrhau bod pob plentyn wedi cael ei gofrestru i mewn ac allan gan oedolyn awdurdodedig.	

Gwiriwyd gan: _____

Dyddiad: _____

**PLANT MEWN ADLONIAINT – RHEOLIADAU PLANT (PERFFORMIADAU A GWEITHGAREDDAU)
(CYMRU) 2015**

Atodlen 3 (Rheoliad 11) – Taflen Gofnodi Ddyddiol

Enw llawn y Plentyn	Dyddiad Geni'r Plentyn
Manylion Cyswllt Rhieni	Asiant y Plentyn
Awdurdod Trwyddedu'r Plentyn	Awdurdod Lleol lleoliad y gwaith
Enw'r Hebryngwr a'r Awdurdod Trwyddedu	Enw'r Tiwtor a'r Awdurdod Trwyddedu
Enw'r Cynhyrchiad	A welwyd / gadwyd Trwydded y Plentyn
Enw a rhif ffôn y Cwmni Cynhyrchu.	Deiliad Trwydded Enw / rhif ffôn:.
Dyddiad y Perfformiad	Lleoliad y Perfformiad

07:00				08:00				09:00				10:00			
00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00
11:00				12:00				13:00				14:00			
00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00
15:00				16:00				17:00				18:00			
00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00
19:00				20:00				21:00				22:00			
00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00
23:00				00:00				01:00				02:00			
00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00	00 tan 15	15 tan 30	30 tan 45	45 tan 00

- A** = Cyrraedd y lleoliad **D** = gadael y lleoliad **H** = Cludo gartref
M = Egwyliau prydau bwyd **O** = Arall (colur/gwisgoedd) **N** = gwaith nos awdurdodedig
P = Perfformio ar set/llwyfan (gan gynnwys ymarfer / aros i berfformio) **PU** = Casglu i hebrwng i'r lleoliad
R = seibiant gorffwys **S** = Wrth gefn **T** = Amser tiwtor
W = Diwedd

I'w gwblhau gan Ddeiliad y Drwydded:

A yw'r drwydded yn cael ei chadw yn lleoliad y perfformiad: YDY / NAC YDY

Cwblhawyd y daflen amser gan yr Hebryngwr uchod: DO / NADDO

Symiau i'w hennill gan y plentyn mewn perthynas â'r drwydded hon

Trefniadau a wnaethpwyd i dalu'r symiau hyn:

Llofnod yr Hebryngwr: _____

Llofnod Deiliad y Drwydded: _____

Dyddiad: _____

- **gwiriwch bod y plentyn yn gyfforddus** – chi yw'r person y bydd y plentyn yn dod ato/ati am arweiniad, gwarchodaeth, eglurhad ac i'w amddiffyn
- **safwch yn gefn i'r plentyn yn erbyn pwysau'r cynhyrchiad** – un o brif gryfderau hebryngwr yw ei (g)allu i gyd-drafod â'r cwmni cynhyrchu 'ar y safle' a gallu dweud 'na' pan fo'r hyn y gofynnir i'r plentyn ei wneud yn groes neu'n niweidiol i iechyd, lles a/neu addysg y plentyn
- **gweithiwch fel cefnogwr y plentyn**
- **rhowch wybod am unrhyw bryderon a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pwy y dylech ei hysbysu a beth i'w wneud ym mhob achos** – dylai hebryngwyr gadw cofnod o gysylltiadau pwysig e.e. awdurdod trwyddedu'r plentyn, awdurdod lleol yr ardal y mae'r plentyn yn perfformio ynddi, asiant y plentyn a rhiant / gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn
- **Gofynnwch i gael gweld copi o'r drwydded**
- **defnyddiwch eich disgrisiwn (pan fo rheoliadau'n caniatáu) pan fo hynny er lles gorau'r plentyn**
- **byddwch yn ymwybodol o'r holl beryglon posibl i'r plentyn**
- **heriwch bobl a/neu ymddygiadau**

PEIDIWCH Â:

- **gadael i'r plentyn berfformio os nad ydynt yn teimlo'n dda**
- **gadael y plentyn ar ei ben ei hun gydag oedolyn arall (oni bai eu bod yn rieni neu athrawon i'r plentyn)**
- **anwybyddu neu wneud yn fach o ymddygiad amheus gan oedolion neu blant eraill**
- **gadael i'r plentyn gael ei wthio i wneud pethau nad yw eisiau eu gwneud**
- **tynnu lluniau o'r plentyn**
- **gofyn i berfformwyr am lofnodion neu gyffroi o weld pobl enwog**
- **defnyddio iaith amhriodol neu ysmegu tra'r ydych ar ddyletswydd**
- **yfed alcohol neu fod dan ddylanwad alcohol tra'r ydych ar ddyletswydd**
- **gwisgo dillad amhriodol**